

**Y Pwyllgor Iechyd a
Gofal Cymdeithasol**

—
**Health and Social Care
Committee**

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Seneddlechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/Seneddlechyd
0300 200 6565

—
Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Jack Sargeant AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau

26 Tachwedd 2021

Annwyl Jack

Deiseb P-05-1045 Dylai penderfyniadau ar y cyd ac adolygu cynlluniau gofal iechyd meddwl misol fod yn ofyniad cyfreithiol


Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Medi ynghylch y ddeiseb uchod, pan wnaethoch ofyn i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ystyried ymgymryd â gwaith ar gymorth iechyd meddwl yn ystod y Chweched Senedd.

Fel aelod o'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, byddwch yn ymwybodol:

- Bod iechyd meddwl, gan gynnwys mynediad at wasanaethau cymorth, yn un o'r meysydd blaenoriaeth a ddaeth i'r amlwg o'n [hymgyngoriad ar flaenoriaethau'r](#) Pwyllgor ar gyfer y Senedd hon.
- Yn ein strategaeth ar gyfer y Chweched Senedd, rydym wedi nodi iechyd meddwl fel blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn gyntaf. Bydd y Pwyllgor yn ystyried cwmpas a dull posibl ymchwiliad cychwynol i iechyd meddwl yn ein cyfarfod ar 2 Rhagfyr.

Edrychwn ymlaen at weithio ar y cyd â'r Pwyllgor Deisebau ar faterion trawsbynciol sy'n dod o fewn ein cylch gwaith yn ystod y Senedd hon.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Russell George". The signature is written in a cursive style with a long horizontal stroke at the end.

Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English

